# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 18 Ionawr 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

## 45(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn drwy gynhadledd fideo.

Mae'r Llywydd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 3 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Diweddariad ar Covid-19

(45 munud)

### 4 Datganiad gan Weinidog yr Economi: Economïau Rhanbarthol Cryfach

(45 munud)

## 5 5 Datganiad gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip: Y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn dilyn cyhoeddi 'Y Fasnach mewn Caethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig: archwiliad o Goffáu yng Nghymru'

(45 munud)

**Dogfennau Ategol**

Y Fasnach mewn Caethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig: archwiliad o Goffáu yng Nghymru

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: BlasCymru/TasteWales – hyrwyddo bwyd a diod o Gymru i'r byd

(45 munud)

## 7 Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Cymorth Cyfreithiol a Mynediad at Gyfiawnder

(45 munud)

**Dogfen Ategol**

Independent Review of Criminal Legal Aid – Report (publishing.service.gov.uk)

*(Saesneg yn unig)*

## 8 Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2022

(15 munud)

**NDM7884** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2022 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Rhagfyr 2021.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân

(30 munud)

## 9 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd: Cynnig 1

**NDM7882** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau ym Mil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, sef 'Adroddiad cyfamod yr Heddlu', 'Cynyddu'r gosb am ymosod ar weithiwr brys', Rhan 2, Pennod 1 'Swyddogaethau sy'n ymwneud â thrais difrifol' (gan gynnwys 'Swyddogaethau sy'n ymwneud â thrais difrifol', 'Arfer swyddogaethau', 'Diwygiadau i Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 etc', a 'Cyffredinol'), Rhan 2, Pennod 2 'Adolygiadau o laddiadau ag arfau tramgwyddus', 'Echdynnu gwybodaeth o ddyfeisiau electronig: ymchwiliadau i droseddau etc, 'Cymhwyso adran 36 i blant ac oedolion heb alluedd', 'Gofynion ar gyfer darparu'n wirfoddol a chytuno', 'Cod ymarfer ynghylch echdynnu gwybodaeth', 'Rheoliadau ynghylch echdynnu gwybodaeth gyfrinachol', 'Personau awdurdodedig', 'Cynnydd yn y gosb am droseddau sy'n ymwneud â helwriaeth etc', ac 'achosi niwsans cyhoeddus yn fwriadol neu'n ddi-hid', i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mai 2021 a gosodwyd Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Tachwedd 2021, 20 Rhagfyr 2021 a 7 Ionawr 2022 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Mae copi o'r Bil i'w weld ar wefan Senedd y DU:

Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd *(Saesneg yn unig)*

**Dogfennau Ategol**
Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad *(Memorandwm Rhif 1)*
Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad *(Memorandwm Rhif 2)*
Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad *(Memorandwm Rhif 3 a Rhif 4)* *(Saesneg yn unig)*

## 10 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd: Cynnig 2

**NDM7883** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau ym Mil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, sef 'Difrod troseddol i gofebau: dull treial', 'Gosod amodau ar orymdeithiau cyhoeddus', 'Gosod amodau ar gynulliadau cyhoeddus', 'Gosod amodau ar brotestiadau un person', 'Trosedd yn ymwneud â byw ar dir heb ganiatâd mewn cerbyd neu gyda cherbyd', 'Diwygiadau i bwerau sy'n bodoli', a 'Canllawiau ar arfer pwerau'r heddlu mewn perthynas â thresmasu ar dir etc', i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mai 2021 a gosodwyd Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Tachwedd 2021, 20 Rhagfyr 2021 a 7 Ionawr 2022 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Mae copi o'r Bil i'w weld ar wefan Senedd y DU:

Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd *(Saesneg yn unig)*

**Dogfennau Ategol**
Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad *(Memorandwm Rhif 1)*
Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad *(Memorandwm Rhif 2)*

## 11 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 19 Ionawr 2022

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 13/01/2022 i'w hateb ar 18/01/2022

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## PRIF WEINIDOG

**Joel James** *Canol De Cymru*

1 OQ57458 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o unrhyw sgil-effeithiau negyddol o weithredu'r Cynllun Gweithredu Teithio Llesol i Gymru?

**Ken Skates** *De Clwyd*

2 OQ57472 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithrediad y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU?

**Peter Fox** *Mynwy*

3 OQ57486 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r gwaith o weithredu pàs COVID GIG Cymru?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

4 OQ57456 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi'r sector manwerthu yng Nghwm Cynon?

**James Evans** *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

5 OQ57447 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynnydd tuag at dargedau adeiladu tai Llywodraeth Cymru?

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

6 OQ57465 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i roi cyngor ar ynni i aelwydydd sy'n agored i niwed?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

7 OQ57487 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cynnal gyda Gweinidogion cyfatebol Llywodraeth y DU ynghylch mesurau i leihau cyfraddau heintio COVID-19?

8 **Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

OQ57448 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarparu cyllid i fusnesau lletygarwch yr effeithiwyd arnynt gan gyfyngiadau COVID-19 diweddar Llywodraeth Cymru?

9 **Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

OQ57483 **(e)**

Pa uchelgeisiau sydd gan Lywodraeth Cymru i ehangu prentisiaethau?

10 **John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

OQ57449 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i ddod â swyddi sgiliau uchel i Ddwyrain Casnewydd?

11 **Buffy Williams** *Rhondda*

OQ57441 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnal arholiadau ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd?

12 **Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

OQ57439 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi'r economi ym Mhreseli Sir Benfro?